



Social Co-operation Forum
Fforwm Cydweithredu Cymdeithasol

Beth yw mentrau cydweithredol?

“Cymdeithas o bobl sydd wedi gwirfoddoli i geisio gwireddu anghenion a dyheadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol drwy fenter a reolir yn ddemocrataidd.” – www.ica.coop/en/whats-co-op/co-operative-identity-values-principles

Eu nod yw creu buddion ar gyfer yr aelodau, nid elw ar gyfer cyfranddeiliaid. Maent yn gyrrff democrataidd sy'n trin yr aelodau'n gyfartal ac yn gweithredu ar sail yr egwyddor “un aelod un bleidlais”.

Sefydliar mentrau cydweithredol at ddibenion cymdeithasol a gofal yn y gymuned. Mae rhai'n gwbl nid-er-elw tra bod eraill yn caniatáu rhannu elw bach rhwng yr aelodau. Dyma nodwedd unigryw'r mentrau hyn, sy'n seiliedig ar werthoedd ac egwyddorion rhyngwladol.

Ar draws y byd mae tua 1.4 miliwn o fentrau cydweithredol gyda dros 1 biliwn o aelodau, yn cynnal 100 miliwn o swyddi gyda throsiant blynyddol o \$1.6 triliwn.

● Hanes y mudiad

Gellir olrhain dechrau'r mudiad cydweithredol yn ôl i 1815 pan gyhoeddodd Robert Owen o'r Drenewydd, Powys “Observations on the Effects of the Manufacturing System”.

Dechreuwyd y gymdeithas gydweithredol gofrestredig gyntaf gan 28 gweithiwr melin wllân yn Rochdale, swydd Gaerhifryn yn 1841. Roeddent yn poeni am gyflenwadau bwyd ac wedi penderfynu agor siop i werthu bwyd o safon am brisiau teg, wedi'u pwysu a mesur yn iawn. Buddsoddodd y gweithwyr £1 yr un (dros £100 ar brisiau heddiw) i ddechrau'r busnes. Profodd yn llwyddiannus iawn, gan arwain at agor cannoedd o gymdeithasau co-op lleol ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae traddodiad cryf o gydweithredu a chreu cyrff cymunedol yng Nghymru a sefydlwyd llawer o'r cymdeithasau co-op cyntaf yng Nghymru. Roedd yr enwau cyntaf, fel Tonyrefail Pioneers a Brynmawr Perseverance Society, yn

adlewyrchu'r heriau roeddent yn wynebu. Y rhai mwyaf llwyddiannus oedd y rheiny gyda gwreiddiau cryf yn eu cymunedau.

● **Cysylltiad â gofal a chymorth cymdeithasol**

Roedd mentrau cydweithredol yn cefnogi'r aelodau o'r 'crud i'r bedd'. Yn ogystal â darparu amrediad o wasanaethau ar gyfer eu hunain, ystyriwyd cydweithredu fel ffordd o adeiladu cymdeithas newydd, drwy gyfrwng cymorth a chyfrifoldeb. Mae 'Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)' yn adlewyrchu hynny wrth roi rheolaeth nôl yn nwylo dinasyddion.

Mae'r Ddeddf yn cymhell pobl gyffredin i arloesi a symbylu gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol newydd yn ein cymunedau.

● **Hyrwyddo cydraddoldeb**

Ni dderbyniodd menywod yr hawl i bleidleisio tan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1928, ond roeddent wedi gallu pleidleisio o fewn mentrau cydweithredol o'r cychwyn yn 1841, o dan amodau Egwyddorion y Co-op: *"one member one vote" should obtain in government, and the equality of sexes in membership.*

Sefydlwyd Urdd Merched y Co-op yn 1883, gyda dwy o'r sefydlwyr o Aberdâr, gan ddod yn gorff ymgyrchu pwysig dros hawliau menywod. Mae ethos a hanes y mudiad yn dangos sut allai'r mudiad chwarae rôl debyg wrth alluogi pobl anabl i arwain a siapiau gwasanaethau newydd.

● **Sut mae mentrau cydweithredol yn awdurdodi pobl**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cynnig perthynas newydd rhwng y wladwriaeth a dinasyddion – un sy'n cydnabod asedau a chryfderau pobl yn hytrach na diffygion a gwendidau. Seiliwyd yr athroniaeth hon ar werthoedd ac egwyddorion cydweithredu.

Bydd mentrau cydweithredol hefyd yn gallu cefnogi eu cymunedau am eu bod yn eiddo pobl leol. Mewn oes ble mae cwmnïau rhyngwladol yn dominyddu, mae ysbryd cydweithredu lleol yn cynyddu a mentrau cydweithredol yn gallu cyfuno buddion y ddau.

● **Gwerthoedd ac egwyddorion mentrau cydweithredol**

Mae gwerthoedd ac egwyddorion y mudiad cydweithredol wedi esblygu ers

arloeswyr Rochdale yn 1841. Cytunwyd y fersiwn presennol gan Gynghair Rhyngwladol y Co-ops yn 1996.

Gwerthoedd

Seiliwyd y mentrau ar werthoedd hunangymorth, hunangyfrifoldeb, democratiaeth, cydraddoldeb, cyfiawnder ac undod. Yn unol â thraddodiad eu sefydlwyr, mae aelodau mentrau cydweithredol yn glynu at werthoedd moesegol fel gonestrwydd, didwylledd, cyfrifoldeb cymdeithasol a gofalu am eraill.

Egwyddorion

1. Aelodaeth wirfoddol ac agored
2. Aelodau'n rheoli yn ddemocrataidd
3. Aelodau'n cyfranogi yn ariannol
4. Annibyniaeth
5. Addysg, hyfforddiant a gwybodaeth
6. Cydweithredu rhwng cymdeithasau
7. Gofalu am gymunedau

● Y gwahaniaeth rhwng mentrau cydweithredol a modelau eraill?

Mae cyrff amrywiol, fel elusennau ac awdurdodau lleol, yn chwarae rolau pwysig. Fodd bynnag, mae rhai nodweddion penodol o fentrau cydweithredol yn eu gwneud yn addas iawn i gefnogi gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr.

Fel arfer, mae elusennau'n eiddo ac yn cael eu rheoli gan grŵp bach o ymddiriedolwyr, gyda dim llawer o atebolrwydd democrataidd i'r bobl sy'n derbyn eu gwasanaethau. Mae llywodraeth leol yn atebol yn ddemocrataidd i'r boblogaeth leol ac o ganlyniad ni fydd defnyddwyr gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol yn debyg o gael llawer o ddylanwad ar benderfyniadau sy'n eu heffeithio. Mae mentrau cydweithredol yn eiddo ac yn cael eu rhedeg gan yr aelodau. Cyn belled bod mwyafrif o'r aelodau yn defnyddio'r gwasanaethau, bydd elfen o ddemocratiaeth yn y strwythur er sicrhau rhedeg y fenter er lles y defnyddwyr.

Fel model, mae'n addas iawn ar gyfer cyfranogiad dinasyddion a rhannu grym a chyfrifoldeb yn deg rhwng yr aelodau. Bydd mentrau cymdeithasol

fel hyn yn dilyn egwyddorion cyd-gynhyrchu dros yr hir dymor, nid y cymal cynllunio yn unig.

● Adnoddau pellach

www.cymru.coop/

www.disabilitywales.org/wordpress/wp-content/uploads/direct-payments-report-eng.pdf